ADRODDIAD BLYNYDDOL

CYNGOR GWYNEDD

AR WEITHREDIAD SAFONAU'R GYMRAEG

Ar gyfer y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2023

Cynnwys yr adroddiad

RHAGAIR 2

CRYNODEB 3

1. Cefndir - dyletswydd y Safonau 4

2. Sicrhau Cydymffurfiaeth efo'r Safonau yn ystod 2022-23 5

2.1 Adlewyrchu ar y flwyddyn
2.2 Camau gweithredu penodol a gymerwyd i gryfhau cydymffurfiaeth

3. Heriau wrth symud ymlaen -materion sydd angen sylw 8

4. Adrodd yn unol â gofynion Safon 170 9

4.1 Trosolwg cyffredinol sgiliau iaith
4.2 Safon 154: Adrodd ar nifer swyddi a hysbysebwyd yn ystod y flwyddyn yn ôl pob "categori" yn y Safon
4.3 Safon 151: Adrodd ar niferoedd staff sydd efo sgiliau iaith Gymraeg
4.4 Safon 152: Adrodd ar nifer staff fynychodd hyfforddiant cyfrwng Cymraeg
4.5 Safon 170: Adrodd ar gwynion iaith

RHAGAIR

Gan y Cynghorydd Menna Trenholme, Aelod Cabinet Cefnogaeth Gorfforaethol Cyngor Gwynedd, gyda chyfrifoldeb am y Gymraeg yn ystod 2022-23

Rwyf yn hynod falch o'r gwaith sydd yn cael ei wneud o fewn y Cyngor i sicrhau bod trigolion Gwynedd yn gallu defnyddio ein holl wasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg. Gallwn ymfalchïo yn yr adroddiad hwn sy'n dystiolaeth o'r gwaith da sy'n cael ei gyflawni ar draws holl adrannau'r Cyngor.

Mabwysiadwyd Polisi Iaith newydd i'r Cyngor yn ystod 2022, gydag adolygiad trylwyr o'r polisi blaenorol wedi arwain at nifer o newidiadau sydd wedi cryfhau ymrwymiad y Cyngor i'r Gymraeg ac hefyd yr arweiniad sydd yn cael ei roi i staff, gan sicrhau ein bod yn parhau i gynnig gwasanaethau Cymraeg yn rhagweithiol i'r trigolion.

Gwnaed datganiad pwysig wrth fabwysiadu'r polisi newydd, hefyd, gyda'r Cyngor yn cymryd cam pwysig i godi statws cyhoeddus yr iaith, ac i hybu a hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg y tu hwnt i'w wasanaethau ac yn y gymuned, drwy benderfynu galw ei hun wrth ei enw Cymraeg, Cyngor Gwynedd, yn unig o hyn ymlaen, a hefyd i arddel fersiynau Cymraeg o enwau llefydd a strydoedd yn unig wrth gyfathrebu gyda'r cyhoedd.

Rydym wrthi'n cynllunio'r gwaith hybu a hyrwyddo ar gyfer y blynyddoedd nesaf nawr, gyda'r gwaith o ddatblygu a sefydlu Strategaeth Iaith y Cyngor ar gyfer y 5 mlynedd nesaf wedi cychwyn. Mae ymgynghoriad cyhoeddus ar gynnwys y strategaeth ddrafft newydd ei gynnal ac edrychaf ymlaen i gael rhannu cynnwys y strategaeth derfynol yn y misoedd nesaf.

Braf hefyd oedd gweld Fforwm Iaith Gwynedd yn cael ei sefydlu dan arweiniad y Cyngor, er mwyn creu gofod trafod a chyd-gynllunio rhwng partneriaid a rhanddeiliaid allweddol wrth fynd at i hybu a chynyddu cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ar draws y sir.

Mae nifer o gynlluniau eraill ar y gweill gan y Cyngor fydd yn rhoi lle blaenllaw i ffyniant cymunedol a ffyniant yr iaith yn y dyfodol , ac felly wyf yn falch bod Cyngor Gwynedd yn parhau i arwain y gad, ac i edrych y tu hwnt i ddarparu dwyieithog yn unig, drwy roi anghenion y trigolion ac ymrwymiad i weithredu er lles y Gymraeg yn gyntaf.

CRYNODEB

99.4% = nifer staff y Cyngor cyfan sydd yn meddu ar rhyw fath o **sgiliau** yn y Gymraeg

93% = nifer staff sydd efo sgiliau lefel Sylfaen neu uwch

91% = nifer staff sydd yn cyrraedd dynodiad iaith eu swydd

833 o swyddi wedi eu hysbysebu yn ystod y flwyddyn lle roedd sgiliau yn y Gymraeg yn **hanfodol** (pob swydd a hysbysebwyd gan y Cyngor)

Gwaith ymchwil wedi ei gomisiynu i ddatblygu dealltwriaeth am arferion ieithyddol defnyddwyr gwasanaethau.

Pob cyfarfod cyhoeddus yn cael ei gynnal yn Gymraeg gyda chyfieithu ar y pryd yn ddi-ofyn.

1. Cefndir - dyletswydd y Safonau

Mae Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 yn gosod fframwaith cyfreithiol, sydd yn rhoi dyletswydd ar y Cyngor i gydymffurfio â safonau mewn perthynas â'r Gymraeg. Mae safonau unigol yn egluro sut mae disgwyl i sefydliadau ddefnyddio'r Gymraeg mewn gwahanol sefyllfaoedd.

Mae'r dyletswyddau sy'n deillio o'r safonau'n golygu na ddylai'r Cyngor drin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, ac y dylai'r Cyngor hybu a hwyluso defnyddio'r Gymraeg (sef ei gwneud yn haws i bobl ei defnyddio yn eu bywydau o ddydd i ddydd).

Mae'r Safonau Iaith wedi eu rhannu yn bum maes:

- cyflenwi gwasanaethau
- llunio polisi
- gweithredu
- hybu
- cadw cofnodion

Derbyniodd y Cyngor hwn hysbysiad cydymffurfio gan Gomisiynydd y Gymraeg ar 30 Medi 2015, a hynny o dan Ran 4 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011. Roedd yr hysbysiad hwn yn pennu'r safonau penodol y mae'n ofynnol i'r Cyngor gydymffurfio â hwy, ac ar 30 Mawrth 2016 daeth 147 o safonau yn weithredol, gyda 4 o safonau hybu yn dod yn weithredol ar 30 Mawrth 2017.

Gellir gweld y Safonau y mae'r Cyngor yn gorfod cydymffurfio a nhw yn eu cyfanrwydd, ynghyd â chopi o Bolisi Iaith cyfredol y Cyngor, drwy fynd i dudalen Safonau a Pholisi y wefan gorfforaethol:

https://www.gwynedd.llyw.cymru/cy/Cyngor/Strategaethau-a-pholis%C3%AFau/Cydraddoldeb-ac-iaith/Safonaur-Gymraeg-a-Pholisi-Iaith.aspx

2. Sicrhau Cydymffurfiaeth efo'r Safonau yn ystod 2022-23

2.1 Adlewyrchu ar y flwyddyn

Prif gyfrwng y Cyngor ar gyfer gweithredu yn unol â'r Safonau Iaith a sicrhau gwasanaethau cyfrwng Cymraeg i drigolion Gwynedd yw ei Bolisi Iaith.

Cafodd y Polisi Iaith diweddaraf ei fabwysiadu yn ystod 2022, gyda nifer o newidiadau wedi eu gwneud i'r polisi blaenorol er mwyn rhoi gwell eglurder i staff am sut i weithredu mewn gwahanol sefyllfaoedd, yn enwedig rhai nad ydynt yn cael eu cwmpasu yn uniongyrchol neu amlwg gan ofynion y Safonau, ac hefyd i gryfhau ymrwymiad y Cyngor i hybu a hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg drwy ei wasanaethau ac yn y gymuned.

Drwy fabwysiadu'r polisi newydd, pasiwyd y penderfyniad hefyd i'r Cyngor alw ei hun wrth ei enw Cymraeg, Cyngor Gwynedd, yn unig o hyn ymlaen, ac hefyd i arddel fersiynau Cymraeg o enwau llefydd a strydoedd yn unig wrth gyfathrebu gyda'r cyhoedd. Mae hyn yn gam pwysig wrth godi statws cyhoeddus yr iaith, ac i fod yn rhagweithiol wrth roi lle blaenllaw i'r Gymraeg.

Mae ymwybyddiaeth o'r angen i weithredu yn unol â'r Polisi yn dda o fewn gwasanaethau'r Cyngor, ac mae trefniadau monitro yn gwella o flwyddyn i flwyddyn. Mae trefniadau hunanasesu blynyddol bellach mewn lle, gyda phob adran o fewn y Cyngor yn gorfod adrodd ar gydymffurfiaeth i'r Uned Iaith a Chraffu ac i Bwyllgor Iaith y Cyngor. Rydym hefyd wedi edrych yn ystod y flwyddyn ar y ffordd rydym yn rhannu gwybodaeth ac adnoddau gyda chyd-weithwyr, ac wedi creu tudalen newydd ar fewnrwyd y Cyngor er mwyn rhannu gwybodaeth gyda staff am faterion yn ymwneud efo'r Polisi Iaith a'r Safonau. Mae adnoddau megis copi o logo newydd uniaith y Cyngor, a thempledi ar gyfer y datganiadau sydd yn ofynnol i ni eu cynnwys mewn dogfennau a gohebiaeth, wedi eu gosod ar y fewnrwyd er mwyn i staff gael gafael arnynt yn hawdd pan fydd eu hangen. Ers cyhoeddi'r Polisi Iaith newydd, rydym wedi bod yn rhannu negeseuon cyson gyda staff er mwyn eu hatgoffa am y gofynion mewn gwahanol feysydd, ac felly yn atgyfnerthu cydymffurfiaeth y gwasanaethau gyda'r Safonau.

Mae mwyafrif helaeth staff y Cyngor yn gallu siarad Cymraeg, a nifer fawr gyda sgiliau Cymraeg rhugl, sydd yn golygu bod defnydd o'r Gymraeg fel iaith gwaith dydd i ddydd yn dal i fod yn arfer naturiol, a'n bod yn gallu sicrhau gwasanaeth Cymraeg yn rhagweithiol ac yn ddiofyn. Mae'r angen i ystyried y Gymraeg, a rôl y Cyngor wrth gynnal cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg o fewn ein cymunedau, hefyd yn arfer naturiol, ac ni wneir unrhyw benderfyniad ar newidiadau i wasanaethau, neu wrth ddatblygu cynlluniau strategol, heb fod y Gymraeg a datblygu cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn rhan greiddiol o'r cynlluniau hynny.

Mae'r Cyngor yn parhau i arwain a mynd y tu hwnt i ofynion y Safonau wrth osod gofynion iaith wrth recriwtio ac hefyd wrth gynnal ei holl gyfarfodydd cyhoeddus yn Gymraeg, yn ddi-ofyn. Mae'r Gwasanaeth Democratiaeth ac Iaith, sydd yn cynnwys yr uned gyfieithu, wedi gweithio yn galed i oresgyn y rhwystrau oedd yn ein hwynebu wrth symud i gynnal cyfarfodydd ar-lein ac aml-leoliad dros y ddwy flynedd ddiwethaf, ac wedi sicrhau na chafodd rhediad a chyfrwng iaith cyfarfodydd cyhoeddus y Cyngor eu amharu o gwbl, a bod cyfleusterau cyfieithu ar y pryd ar gael bob amser er mwyn galluogi'r di-Gymraeg i gymryd rhan lawn.

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, dechreuwyd ar ddarn o waith ymchwil PhD dan ofal Prifysgol Bangor, fydd yn edrych ar agweddau pobl tuag at ddefnyddio gwasanaethau cyfrwng Cymraeg. Rydym yn gobeithio y bydd y gwaith ymchwil hwn yn gwella ein dealltwriaeth o sut y gallwn ni ddylanwadu ar benderfyniadau ac annog mwy o bobl i ddefnyddio'r gwasanaethau cyfrwng Cymraeg (yn enwedig rhai digidol/ar-lein) sydd yn cael eu darparu gan y Cyngor.

Mae ymgynghorwyr iaith y Cyngor hefyd yn aelodau o Is-Grŵp y Gymraeg sydd yn rhan o strwythur y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus. Cafodd prosiect ei gwblhau ar ran yr Is-grŵp yn ystod y flwyddyn oedd yn edrych ar y ffyrdd mae'r cyrff yn ceisio dylanwadu ar ddefnydd iaith y cyhoedd mewn gwasanaethau rheng flaen. Dewiswyd nifer o dderbynfeydd, yn y Cyngor ac mewn sefydliadau partner yn y gwasanaethau cyhoeddus, i fod yn rhan o'r gwaith ymchwil. Yn sgil hynny datblygwyd adnodd hyfforddiant staff ac awgrymiadau i staff er mwyn annog y cyhoedd i gynyddu eu defnydd o'r Gymraeg.

Wrth i ni edrych ar ddatblygu a sefydlu Strategaeth iaith nesaf y Cyngor, cafodd fforwm iaith sirol ei sefydlu ar gyfer y sir, dan arweiniad yr Uned Iaith a Chraffu, fydd yn fodd o sicrhau ein bod yn ymwybodol o waith partneriaid yn maes hyrwyddo'r Gymraeg ac i alluogi trafod a chyd-gynllunio bwriadus ac adeiladol rhwng partneriaid a rhanddeiliaid allweddol wrth fynd at i hybu a chynyddu cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ar draws y sir.

Mae fforwm fewnol newydd wedi eu sefydlu yn ystod y flwyddyn hefyd er mwyn goruchwylio gwaith yr adrannau Oedolion a Plant yng nghyd-destun fframwaith Mwy na Geiriau. Mae swyddogion o'r Uned Iaith a Chraffu yn mynychu'r fforwm er mwyn sicrhau bod gofynion y Safonau hefyd yn cael eu hamlygu a'u gweithredu ochr yn ochr gyda gofynion Mwy na Geiriau.

Camau gweithredu penodol a gymerwyd i gryfhau cydymffurfiaeth

- **Mabwysiadu Polisi Iaith newydd**

Cafodd y polisi iaith diwygiedig ei fabwysiadu yn ffurfiol yn Hydref 2022.

Cafodd **Gweithdrefn gwynion** (gofyn Safonau 156, 162, 168) a dogfen bolisi ar Weithdrefn **Dyfarnu Grantiau a'r Gymraeg** (gofyn Safon 94) eu cyhoeddi yn ystod y flwyddyn er mwyn rhoi arweiniad penodol i staff ar y materion hynny.

Mae cydweithio wedi bod rhwng swyddogion yr adran Economi a Chymuned a'r ymgynghorwyr iaith er mwyn addasu cymalau ac amodau grantiau er mwyn ceisio sicrhau y budd gorau, a bod unrhyw arian sydd yn cael ei dyrannu gan y Cyngor yn arwain at effaith gadarnhaol ar y Gymraeg. Mae'r amodau a'r system sgorio sydd wedi ei datblygu ar gyfer cronfeydd arian Arfor 2 yn enghraifft dda o hyn, ac yn cael eu defnyddio ar draws pedair sir cadarnle'r Gymraeg.

- **Strategaeth Hybu** (Safonau hybu 145, 146)

Cyhoeddwyd strategaeth iaith bresennol Cyngor Gwynedd yn 2018. Rydym bellach yng nghanol y broses o adolygu strategaeth hybu y Cyngor a llunio strategaeth newydd ar gyfer 2023 ymlaen. Cafodd strategaeth ddiwygiedig ei drafftio yn ystod Ionawr – Mawrth 2023, gyda drafft ymgynghori yn cael ei gymeradwyo gan Gabinet y Cyngor ar 28 Mawrth 2023.

- **Safonau Llunio Polisi** (Safonau 88-93)

Mae cryn oedi wedi bod i ryddhau a defnyddio'r fersiwn ddigidol o'r asesiad effaith integredig, ond rydym yn dal i weld cynnydd yn nifer yr asesiadau sydd yn cael eu cyflwyno gydag adroddiadau i'r Cabinet, yn defnyddio'r fersiwn papur interim.

Yn dilyn ymchwiliad gan y Comisiynydd, ac hefyd yn sgil penderfyniad achos tribiwnlys ac arweiniad pellach gan y Comisiynydd, rydym wedi bod yn gweithio ar ddatblygu ein cydymffurfiaeth a'n dealltwriaeth o'r union ddisgwyliadau yn y maes hwn.

Cymerwyd camau penodol i wella cydymffurfiaeth efo Safonau 91, 92 a 93, sydd yn gosod y disgwyliad o ran gofyn barn y cyhoedd wrth ymgynghori, gyda chwestiynau safonol wedi eu llunio a'u rhannu gyda'r gwasanaeth Cyfathrebu, sydd yn gyfrifol am gydlynu nifer fawr o ymgynghoriadau a phrosesau ymgysylltu y Cyngor.

Rydym hefyd wedi rhannu canllaw byr a chwestiynau safonol ar y mewnrwyd, a byddwn yn addasu'r canllaw yn ôl yr angen ac wrth i'n dealltwriaeth am ddiffiniad y Comisiynydd o'r Safonau ddatblygu.

Mae'r ffaith ein bod yn cael ymholiadau rheolaidd i gynghori ar gwestiynau ymgynghori a chynnwys yr asesiadau effaith yn dangos bod yr ymwybyddiaeth am yr angen hwn yn gwella.

- **Ymateb i ohebiaeth dorfol** (Safon 4) – Adolygiad systemau TG

Mae gwaith yn parhau ar wirio systemau TG y Cyngor er mwyn gwirio eu bod yn cydymffurfio gyda gofynion y Safonau ac yn hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg ymysg y cyhoedd.

Mae'r sylw pennaf ar hyn o bryd ar sicrhau bod pob system sydd yn anfon gohebiaeth at y cyhoedd yn gallu defnyddio cyfeiriadau Cymraeg yn unig, yn defnyddio enw a logo uniaith Cyngor Gwynedd, ac yn cydymffurfio gyda gofyn Safon 4.

- **Datganiadau ar ddogfennau** (Safonau 7, 49, 50A)

Cymerwyd nifer o gamau i gydymffurfio gyda'r safonau hyn yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Mae templedi safonol wedi eu creu ar gyfer y gwahanol fathau o ddatganiadau sydd eu hangen. Anfonwyd negeseuon i staff yn codi ymwybyddiaeth am yr angen i weithredu a chynnwys datganiad ar bedwar achlysur gwahanol yn ystod y flwyddyn.

Gan fod hwn yn ofyn rydym ond newydd ddechrau ei weithredu a'i fonitro, rydym yn cydnabod y bydd yn cymryd amser i ymwybyddiaeth dreiddio ac i'r defnydd o'r datganiadau gael ei brif ffrydio. Yn y cyfamser, byddwn yn cynnal gwiriadau achlysurol er mwyn cadw golwg ar y defnydd o ddatganiadau, ac yn cymryd unrhyw gamau pellach fel bo eu hangen i atgoffa staff.

3. Heriau wrth symud ymlaen – materion sydd angen sylw

- **Gweithredu a chodi ymwybyddiaeth am ofynion y Safonau**

Mae dealltwriaeth dda am yr angen i ddarparu gwasanaethau dwyieithog, a phwysigrwydd y cynnig rhagweithiol i'r cyhoedd, ond mae'n cymryd amser i unrhyw ofynion neu arferion sydd yn mynd y tu hwnt i hynny wreiddio.

Bydd atgoffa staff am ddisgwyliadau'r Polisi Iaith a gofynion y Safonau yn waith parhaus. Mae'r disgwyliadau ar staff o ran pwysau gwaith a'r angen i gydymffurfio gyda gwahanol ofynion statudol a chorfforaethol yn cynyddu drwy'r adeg, ac mae'n mynd yn fwy heriol i sicrhau bod pob maes yn cael y sylw mae ei angen. Mae trosiant staff rheolaidd hefyd yn her, gyda'r arferion gwaith hybrid newydd, lle nad yw timau bob amser efo'i gilydd wyneb yn wyneb, yn golygu ei bod yn fwy heriol trosglwyddo negeseuon yn effeithiol i staff.

Bydd angen i ni feddwl yn greadigol am ffyrdd o gael y negeseuon yma i staff er mwyn sicrhau bod y gofynion yn cael eu gweithredu yn llawn a chyson.

- **Strategaeth iaith**

Bydd sicrhau trefniadau monitro effeithiol ar gyfer y strategaeth newydd yn allweddol, yn ogystal a datblygu perchnogaeth ymysg adrannau'r Cyngor o'r cynlluniau a'r blaenoriaethau. Mae'r adrannau eisoes yn cyflwyno adroddiadau blynyddol i'r Pwyllgor Iaith ar weithrediad y Safonau a'r Polisi, ond bydd disgwyl iddynt roi mwy o wybodaeth a data am gynlluniau sydd yn cyfrannu at amcanion y strategaeth newydd o hyn ymlaen. Bydd y rhaglen waith fydd yn cael ei llunio ar gyfer y strategaeth yn hwyluso hyn.

- **Hyfforddiant**

Mae mwyafrif yr hyfforddiant sydd yn cael ei ddarparu yn uniongyrchol i staff gan y Cyngor yn cael ei gynnal yn Gymraeg, gyda rhai cyrsiau ar gael yn Saesneg hefyd. Rydym yn gwneud ymdrech hefyd i gyfuno sesiynau a darparu yn ddwyieithog, os yw hynny yn bosib.

Serch hynny, mae hwn yn faes lle rydym wedi gweld newid yn y data dros y blynyddoedd diwethaf a bydd angen i ni gadw golwg arno i wneud yn siŵr ein bod yn rhoi pob cyfle ac anogaeth posib i'n staff i ddilyn cyrsiau drwy gyfrwng y Gymraeg, ac hefyd eu bod yn cael pob cyfle posib i ddatblygu eu sgiliau yn y Gymraeg. Byddwn yn gweithio dros y misoedd nesaf ar ddatblygu'r ddarpariaeth hyfforddiant iaith, er mwyn sicrhau bod gan staff y Cyngor y sgiliau a'r wybodaeth orau posib er mwyn gallu cynnig gwasanaethau Cymraeg i'r cyhoedd.

Mae'r modiwl ymwybyddiaeth iaith yn un o'r e-fodiwlau mandadol hynny y mae disgwyl i bob aelod o staff cyflogedig ei gwblhau, ac felly byddwn yn disgwyl gweld cynnydd yn y nifer sydd yn cwblhau yn ystod y flwyddyn nesaf. Mae gwaith ar droed yn gorfforaethol i wella cyfraddau cwblhau y modiwlau craidd yma, ac hefyd i adolygu cynnwys yr e-fodiwl er mwyn sicrhau ei fod yn gyfredol ac yn gyfoes.

4. Adrodd yn unol â gofynion safon 170

Gofynion Adrodd Safon 170:

(1) *Rhaid ichi lunio adroddiad ("adroddiad blynyddol"), yn Gymraeg, mewn perthynas â phob blwyddyn ariannol, sy'n delio â'r modd y bu ichi gydymffurfio â'r safonau gweithredu yr oeddech o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy yn ystod y flwyddyn honno.*

(2) *Rhaid i'r adroddiad blynyddol gynnwys yr wybodaeth a ganlyn (pan fo'n berthnasol, i'r graddau yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â'r safonau y cyfeirir atynt) –*

(a) nifer y cyflogeion sy'n meddu ar sgiliau yn y Gymraeg ar ddiwedd y flwyddyn o dan sylw (ar sail cofnodion a gadwasoch yn unol â safon 151);

(b) nifer yr aelodau o staff a fynychodd gyrsiau hyfforddi a gynigiwyd gennych yn y Gymraeg yn ystod y flwyddyn (ar sail cofnodion a gadwasoch yn unol â safon 152);

(c) os cynigiwyd fersiwn Gymraeg o gwrs gennych yn ystod y flwyddyn, y ganran o gyfanswm nifer y staff a fynychodd y cwrs a fynychodd y fersiwn Gymraeg (ar sail cofnodion a gadwasoch yn unol â safon 152);

(ch) nifer y swyddi newydd a'r swyddi gwag a hysbysebwyd gennych yn ystod y flwyddyn a gategoreiddiwyd fel swyddi sy'n gofyn –

- *(i) bod sgiliau yn y Gymraeg yn hanfodol*
- *(ii) bod angen dysgu sgiliau yn y Gymraeg pan benodir i'r swydd,*
- *(iii) bod sgiliau yn y Gymraeg yn ddymunol, neu*
- *(iv) nad oedd sgiliau yn y Gymraeg yn angenrheidiol, (ar sail y cofnodion a gadwasoch yn unol â safon 154);*

(d) nifer y cwynion a gawsoch yn ystod y flwyddyn a oedd yn ymwneud â'ch cydymffurfedd â'r safonau gweithredu yr oeddech o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy.

4.1 Trosolwg cyffredinol sgiliau iaith

Mae'r wybodaeth am ddynodiad iaith swyddi a sgiliau iaith staff i gyd yn cael ei gasglu yn awtomatig ar y System Sgiliau Iaith. Mae'r system yn ein galluogi i weld faint o staff sydd efo'r sgiliau iaith cyfatebol i ddynodiad y swydd ac i gynhyrchu adroddiadau byw ar unrhyw adeg, er mwyn tracio cynnydd a newidiadau ar draws adrannau.

Mae'r wybodaeth isod felly yn gywir ar amser llunio'r adroddiad ac wedi ei dynnu o'n System Sgiliau Iaith.

O safbwynt sgiliau'r staff, mae'r wybodaeth a gesglir gan y system yn ateb dau brif gwestiwn:

	Cwestiwn	Ateb
1	A yw'r aelod o staff yn cyrraedd gofynion ei swydd?	Ydi / Nac ydi
2	Beth yw lefel iaith yr aelod o staff ar gyfer Gwrando a Siarad, Darllen a Deall, ac Ysgrifennu?	Dim Sgiliau, Mynediad, Sylfaen, Canolradd, Uwch, Hyfedredd

Cesglir yr wybodaeth ar gyfer **cwestiwn 1** mewn dwy ffordd:

- **gan Reolwyr Llinell**: yn ystod cyfarfodydd gyda rheolwyr ar draws y Cyngor, gofynnwn iddynt nodi, yn eu barn nhw, a yw eu staff yn cyrraedd gofynion iaith eu swyddi ai peidio.
- **trwy hunanasesiadau staff**: mae staff yn cwblhau holiadur sydd, ar sail eu hymatebion i'r cwestiynau, yn cyfrifo eu lefel ar gyfer Gwrando a Siarad, Darllen a Deall, ac Ysgrifennu. Mae'r lefelau hynny'n cael eu cymharu gyda Dynodiadau Iaith y swydd, a chyfrifir ar sail hynny a yw'r aelod o staff yn cyrraedd gofynion eu swydd ai peidio.

Cesglir yr wybodaeth ar gyfer **cwestiwn 2** trwy hunanasesiadau staff.

Mae timau rheoli pob adran yn derbyn adroddiadau rheolaidd (chwarterol neu ddwywaith y flwyddyn) gan y gwasanaeth Dysgu a Datblygu, yn dangos y sefyllfa ddiweddaraf o ran dynodiadau iaith eu staff. Mae rhannu'r adroddiadau rheolaidd yma yn ffordd i adrannau wybod lle mae nhw arni o ran sgiliau eu staff, i adnabod unrhyw newidiadau, ac i adnabod unrhyw unigolion allai fod angen cefnogaeth i ddatblygu sgiliau (llafar neu ysgrifenedig).

Mae fforwm fewnol wedi ei sefydlu, sydd yn cynnwys cynrychiolwyr o bob adran o'r Cyngor, a lle byddwn yn trafod yr adroddiadau sgiliau iaith, ac unrhyw rwystrau o ran casglu asesiadau neu o ran targedu hyfforddiant. Mae'r adborth rydym wedi ei gael gan y swyddogion ar y fforwm yma wedi bod yn werthfawr iawn ac wedi ein galluogi i wneud pethau megis treialu holiaduron papur gyda rhai gwasanaethau lle nad yw'r staff mor debygol o fod yn defnyddio cyfrifiaduron wrth eu gwaith, er mwyn cynyddu'r nifero sydd yn cwblhau'r hunanasesiad.

Wrth inni gasglu mwy a mwy o asesiadau, mae gallu'r system i roi gwybodaeth o werth inni yn cynyddu, a gallwn adnabod patrymau trwy ddadansoddi'r ymatebion i'r hunanasesiad iaith. Er enghraifft, pe gwelir bod nifer o staff un gwasanaeth yn gofyn am gyrsiau gloywi iaith, mae modd ymateb yn rhagweithiol i hynny. Mae felly yn ein galluogi i deilwra hyfforddiant yn well.

4.2 Safon 154: Adrodd ar nifer swyddi a hysbysebwyd yn ystod y flwyddyn yn ôl pob "categori"

4.2.1 Swyddi a hysbysebwyd sydd wedi eu categoreiddio yn hanfodol

Bod sgiliau yn y Gymraeg yn **hanfodol** = **833**
(1318 hysbyseb wedi ei chyhoeddi yn ystod y flwyddyn)

Bod angen dysgu sgiliau yn y Gymraeg pan benodir i'r swydd = 0

Bod sgiliau yn y Gymraeg yn ddymunol = 0

Nad oedd sgiliau yn y Gymraeg yn angenrheidiol = 0

Sylwer:

- Mae **pob swydd** a gaiff ei hysbysebu gan y Cyngor yn nodi gofynion iaith fel sgil ***hanfodol***, h.y. mae angen rhyw elfen o sgiliau iaith ar gyfer pob swydd yn y Cyngor.
- Mae **pob un swydd** yn y Cyngor wedi'i gwirio i sicrhau bod y dynodiad iaith yn gywir ar gyfer y swydd ac yn parhau i gael eu hadolygu'n gyson.
- Mae **pob un swydd newydd** yn gorfod dilyn trefn benodol ar gyfer gosod y dynodiad iaith cywir.

4.2.2 Asesu a Gosod Lefelau Iaith Swyddi – nifer y swyddi ar draws y Cyngor sydd wedi eu dynodi fesul lefel:

Mae'r tabl isod yn dangos y dynodiad, neu'r lefel ieithyddol sydd wedi ei osod ar gyfer pob swydd gyfredol ar draws y Cyngor.

Mae lefel sgiliau iaith un swydd yn gallu amrywio o un sgil i'r llall, h.y. gall gofynion lefel Siarad a Gwrando fod yn uwch na'r gofynion lefel Ysgrifenedig. O ganlyniad i hyn, rydym yn cyfrif y lefel Siarad a Gwrando fel 'prif lefel' ar gyfer pwrpas adrodd lefelau swydd gan mai honno yw'r lefel uchaf fel rheol.

Mae'n dangos felly bod mwy o swyddi wedi cael eu hadnabod fel rhai lle mae sgiliau Canolradd neu Uwch eu hangen i gyflawni'r swydd dan sylw.



4.3 Safon 151: Adrodd ar niferoedd staff sydd efo sgiliau yn y Gymraeg

Sylwer:

- Mae'r gwaith o gasglu gwybodaeth am unigolion (aelodau staff) yn waith parhaus, ac ni fydd y ffigyrau a nodir byth yn adlewyrchu yn union nifer y staff sydd yn cael eu cyflogi gan y Cyngor. Anelir, fodd bynnag, i gael y darlun cywiraf posib o sgiliau'r gweithlu ar unrhyw gyfnod. Mae trosiant staff, newidiadau mewn swyddi, ailstrwythuro, ac unigolion sydd yn dal mwy nag un swydd o fewn y Cyngor i gyd yn ffactorau sydd yn effeithio ar gywirdeb y data.
- Nid ydym yn adrodd yma ar staff sydd yn aelodau o'r adrannau canlynol - GwE, Asiantaeth Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru, Bwrdd Uchelgais Gogledd Cymru, Byw'n Iach, staff Ysgolion – oherwydd nad ydynt yn dod yn uniongyrchol dan ofynion y Safonau neu bod trefniadau atebolrwydd gwahanol. Serch hynny, mae gwasanaeth Byw'n Iach yn cadw data cyfredol ac yn rhan o'r Fforwm Iaith (Mae gofyn i asesu a monitro sgiliau yn rhan o ymrwymiad cytundebol Byw'n Iach gyda'r Cyngor), ac mae gwaith ar droed i gydweithio gyda'r adran addysg ac gasglu asesiadau staff ysgolion hefyd. Nid yw'r ffaith bod y data ddim yn cael ei adrodd yma yn golygu nad oes data ar gael.

4.3.1 Trosolwg gyffredinol – nifer staff gyda sgiliau yn y Gymraeg:

	2021-22		2022-23	
Nifer yr aelodau staff (sydd ar gyflogres y Cyngor)*	**3822**		**3886**	
Staff sy'n meddu ar sgiliau yn y Gymraeg (o unrhyw fath**)**	2799	99.1%	**2726**	99.4%
Staff heb unrhyw sgiliau yn y Gymraeg	26	0.9%	**15**	0.6%

Staff sydd yn cyrraedd lefel Sylfaen ac uwch (gallu siarad Cymraeg)			**2549**	93%

4.3.2 Nifer asesiadau a gynhaliwyd:

	2021-22		2022-23	
Nifer yr aelodau staff (sydd ar gyflogres y Cyngor)*	**3822**		**3886**	
Cyfanswm yr asesiadau a gasglwyd (Asesiadau Rheolwyr Llinell a Hunanasesiadau)	2825	74%	**2932**	75%
Nifer yr Hunanasesiadau a gasglwyd yn unig (Cwestiwn 2)*	2633	69%	**2741**	71%

***nid yw'n cynnwys staff GwE, Asiantaeth Cefnffyrdd, Byw'n Iach, na Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru na staff ysgolion Gwynedd

4.3.3 Nifer staff sydd yn cyrraedd dynodiad eu swydd:

	2021-22	2022-23

Staff sy'n cyrraedd Dynodiadau Iaith eu swydd	2584	91%	**2679**	91%
Staff nad ydynt yn cyrraedd Dynodiadau Iaith eu swydd	241	9%	**253**	9%

Mae'r darlun isod yn dangos sgiliau iaith y gweithlu yn ôl yr hyn sydd wedi'i asesu ar hyn o bryd. Gwelir bod mwyafrif y gweithlu yn meddu ar sgiliau Uwch neu Hyfedredd.

Noder: Uwch yw'r lefel uchaf a osodir ar gyfer dynodiad iaith swydd, ond mae posib i sgiliau iaith yr unigolion gael eu hasesu ar lefel Hyfedredd. Mae hyn yn golygu bod nifer fawr o staff yn meddu ar sgiliau iaith sydd yn uwch na'r angen ar gyfer eu swyddi.

2022- 2023

4.3.4 Lefelau Iaith y staff fesul adran:

*Er hwylustod, talfyrrwyd enwau'r adrannau yn y graff isod. Gellir gweld eu henwau'n llawn yn y tabl nesaf



	Addysg (heb gynnwys ysgolion)	Amgylchedd	Cyllid	Cefnogaeth Gorfforaethol	Economia Chymuned	Oedolion, Iechyd a Llesiant	Plant a Chefnogi Teuluoedd	Priffyrdd, Peiriannaeg a YGC	Tai ac Eiddo	Tîm Arweiniaeth Gorfforaethol
Hyfedredd	208	103	142	128	96	313	203	122	79	28
Uwch	146	58	70	37	42	201	74	108	48	14
Canolradd	54	19	7	5	12	72	12	24	13	1
Sylfaen	36	8	1	0	5	43	8	6	3	0
Mynediad	40	9	0	0	1	91	8	4	5	0
Dim sgiliau	4	0	0	0	0	11	0	0	0	0

Mae nifer y swyddogion sydd a sgiliau hyfedredd – sef rhuglder – wedi cynyddu ar draws pob adran bron. Gwelwyd cynnydd sylweddol hefyd yn nifer staff yr adrannau Amgylchedd, Cyllid, Priffyrdd sydd efo sgiliau Uwch – gallai hyn fod oherwydd bod mwy o'r adrannau hyn bellach wedi cwblhau hunanasesiad.

4.3 Safon 152: Adrodd ar nifer staff fynychodd hyfforddiant cyfrwng Cymraeg

Rhaid ichi gadw cofnod, ar gyfer pob blwyddyn ariannol, o - (a) nifer yr aelodau o staff a fynychodd gyrsiau hyfforddi a gynigiwyd gennych yn Gymraeg (yn unol â safon 128), a (b) os cynigiwyd fersiwn Gymraeg o gwrs gennych yn unol â safon 128, y ganran o gyfanswm nifer y staff a fynychodd y fersiwn honno o'r cwrs.

Safon 128: Rhaid ichi ddarparu hyfforddiant yn Gymraeg yn y meysydd a ganlyn, os ydych yn darparu hyfforddiant o'r fath yn Saesneg -

(a) recriwtio a chyf-weld;
(b) rheoli perfformiad;
(c) gweithdrefnau cwyno a disgyblu;
(ch) ymsefydlu;
(d) delio â'r cyhoedd; ac
(dd) iechyd a diogelwch.

Caiff holl raglen hyfforddiant canolog y Cyngor ei ddarparu yn Gymraeg. Darperir fersiwn Gymraeg a Saesneg o rai cyrsiau ar wahân lle mae galw am hynny, ond fel rheol ceisiwn sicrhau bod yr holl hyfforddiant yn Gymraeg neu'n ddwyieithog.

Dim ond pan fydd angen hyfforddiant mewn meysydd arbenigol, a phrynu gwasanaethau hyfforddwyr arbenigol i mewn y bydd hyfforddiant uniaith Saesneg yn cael ei gynnig. Hyd yn oed bryd hynny, gwneir pob ymdrech wrth gomisiynu gwasanaethau i gael deunyddiau dwyieithog a chymerir pob cyfle i geisio dylanwadu ar ddarparwyr cenedlaethol i wella darpariaeth hyfforddiant cyfrwng Cymraeg i'r sector cyhoeddus yn gyffredinol.

Hyfforddiant Cyffredinol

Mae'r gwasanaeth Dysgu a Datblygu'r Sefydliad yn gyfrifol am ddarparu hyfforddiant ar gyfer adrannau canolog y Cyngor, ac hefyd yn darparu i *B*YW'N IACH, Cefnffyrdd, GWE, Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru, Consortiwm, Uned Lyfryddol Gogledd Cymru, ac Aelodau Etholedig y Cyngor. Mae'r wybodaeth isod ar gyfer yr hyfforddiant a ddarperir ar gyfer adrannau canolog y Cyngor yn unig, sef yr adrannau sydd yn atebol i ofynion y Safonau. Rhoi'r gwybodaeth am hyfforddiant a ddarperir yn ganolog ar gyfer y gwasanaeth Byw'n Iach ar wahân isod.

Nifer digwyddiadau unigol rhwng 01.04.22 a 31.03.23 **- 892**
Nifer y teitlau (lefel Swydd/Sefydliad) rhwng 01.04.22 a 31.03.23 **- 221**

DIGWYDDIADAU HYFFORDDI	NIFER	MYNYCHWYR UNIGRYW
Cymraeg	**428**	**1409**
Saesneg	**295**	**881**
Dwyieithog	**169**	**519**

Y newid ers 2019:

	NIFER DIGWYDDIADAU			MYNYCHWYR UNIGRYW		
	2019-20	**2020-21**	**2021-22**	**2019-20**	**2020-21**	**2021-22**
Cymraeg	463	289	524	1805	1044	1612
Saesneg	225	305	402	1021	796	1032
Dwyieithog	222	92	46	765	453	159

Safon 128-
73 unigolyn wedi mynychu'r gweithdy croeso yn y cyfnod 01.04.22 – 31.03.23
8 digwyddiad wedi ei gynnal. **Pob un trwy cyfrwng y Gymraeg.**

Yn ddiweddar rydym wedi penderfynu cynnal y gweithdai croeso ar Zoom er mwyn sicrhau darpariaeth cyfieithu i'r rhai sydd ei angen. Mae hyn yn golygu nad oes rhaid cynnal sesiynau 'corfforaethol' uniaith Saesneg.

Nifer sesiynau ymwybyddiaeth iaith yn ystod y flwyddyn **- 0**
Nifer staff sydd wedi cwblhau yr e-fodiwl YI - lefel Cyngor ac adran - **611**

<u>Hyfforddiant a ddarparwyd gan y Cyngor ar gyfer y Gwasanaeth BYW'N IACH:</u>
Nifer digwyddiadau unigol rhwng 01.04.22 a 31.03.23 – **78**
Nifer y teitlau rhwng 01.04.22 - 31.03.23 - **17**

DIGWYDDIADAU HYFFORDDI	NIFER	MYNYCHWYR UNIGRYW
Cymraeg	**22**	**21**
Saesneg	**17**	**42**
Dwyieithog	**39**	**89**

5.4 Adrodd ar gwynion iaith

Nifer y cwynion a gawsoch yn ystod y flwyddyn a oedd yn ymwneud â'ch cydymffurfedd â'r safonau gweithredu yr oeddech o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy.

Yn unol â threfniadau atebolrwydd ac adrodd mewnol y Cyngor, caiff unrhyw gwynion neu ymholiadau am wasanaethau sydd yn cael eu derbyn mewn perthynas â'r Safonau neu Bolisi Iaith y Cyngor eu cofnodi gan yr Uned Iaith a Chraffu, a'u hadrodd i Bwyllgor Iaith y Cyngor. Darparwyd adroddiad llawn ar gwynion y flwyddyn Mawrth 2021 i Fawrth 2022 i gyfarfod mis Ebrill 2022 y Pwyllgor Iaith.

C**wynion ac ymholiadau gan Gomisiynydd y Gymraeg – yn ymwneud â chydymffurfiaeth â'r safonau iaith**

CS1038 Arwydd "Aber Dwyryd", Maentwrog (Medi 2022):

Derbyniodd y Comisiynydd gwyn am ddefnydd o enw anghywir ar arwydd wrth arosfan bws Maentwrog. Cadarnhawyd nad y Cyngor oedd yn gyfrifol am osod y llun a'r enw "Aber y Dwyryd" ar yr arwydd, a bod y Cyngor wedi darparu lluniau newydd i Traws Cymru eu gosod ar yr arwydd digidol. Derbyniwyd yr ymateb ac ni aeth y Comisiynydd ymlaen i ymchwilio i'r mater.

CS1026 Gohebiaeth gan y gwasanaeth Llyfrgelloedd (Mehefin 2022):

Derbyniodd y Comisiynydd gwyn bod aelod o'r cyhoedd wedi derbyn gohebiaeth uniaith Saesneg gan y gwasanaeth llyfrgelloedd. Cadarnhaodd y gwasanaeth bod hyn wedi digwydd ond mai camgymeriad gyda'r system atebion awtomatig oedd yn gyfrifol. Derbyniwyd yr ymateb ac ni aeth y Comisiynydd ymlaen i ymchwilio i'r mater.

CS1002 Gohebiaeth gwasanaeth Cyllid (Ebrill 2022)

Derbyniodd y Comisiynydd gwyn bod aelod o'r cyhoedd wedi derbyn gohebiaeth gan y gwasanaeth Pensiynau yn Saesneg yn unig, ac hefyd wedi derbyn gohebiaeth Gymraeg lle'r oedd y Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg,. Bu ymchwiliad llawn i'r achos hwn. Mae'r Cyngor wedi derbyn cyfrifoldeb am y sefyllfa yma o'r cychwyn, ac wedi esbonio bod y sefyllfa wedi codi o ganlyniad i gamgymeriad unigol, ac oherwydd bod yr amgylchiadau penodol dan sylw (gohebiaeth wedi ei anfon at deulu yn sgil marwolaeth unigolyn oedd yn derbyn pensiwn athrawon) yn gofyn i'r swyddog weithredu mewn ffordd wahanol i'r drefn arferol.

Derbyniwyd dyfarniad terfynol ym mis Mai 2023, oedd yn nodi barn y Comisiynydd bod y Cyngor wedi methu a chydymffurfio gyda Safonau 5, 6 a 7. Mae hyn ar y sail

- bod y llythyr gwreiddiol wedi ei anfon yn Saesneg, ac nad oedd y Cyngor yn gwybod a oedd yr unigolyn yn dymuno cael gohebiaeth yn Gymraeg,
- bod yr ail ohebiaeth a anfonwyd yn Gymraeg yn cynnwys gwallau, oedd yn golygu ein bod wedi trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, ac

- nad oedd y llythyrau anfonwyd yn cynnwys y datganiadau safonol sydd yn gwahodd y derbynnydd i ymateb yn Gymraeg, ac yn nodi y bydd y Cyngor yn ymateb yn Gymraeg.

Mae nifer o gamau gweithredu yn cael eu gosod yn y dyfarniad er mwyn sicrhau bod y Cyngor yn cydymffurfio yn llawn. Byddwn yn gosod camau gweithredu ac yn ymateb i'r dyfarniad a'r camau gweithredu dros yr wythnosau nesaf.

CS102 Ymgynghoriad Ysgol Abersoch (Rhagfyr 2021)

Derbyniodd y Comisiynydd gwyn nad oedd y Cyngor wedi dilyn prosesau ymgynghori priodol ac nad oedd wedi ymgynghori yn ddigonol gyda thrigolion lleol nac wedi ystyried yn ddigonol effaith y penderfyniad i gau Ysgol Abersoch ar y Gymraeg a'r gymuned. Cafwyd ymchwiliad llawn a thrylwyr i'r gwyn yma. Rydym wedi derbyn canlyniad drafft yr ymchwiliad, sydd yn nodi barn y Comisiynydd bod y Cyngor wedi methu a chydymffurfio gyda Safonau 91, 92 a 93, sef y safonau sydd yn gosod dyletswydd ar y Cyngor i ofyn cwestiwn penodol am effaith penderfyniad ar y Gymraeg wrth ymgynghori. Mae'r dyfarniad drafft yn nodi, serch hynny, na wnaeth y Cyngor fethu a chydymffurfio gyda Safonau 88, 89 a 90, sef y Safonau sydd yn gosod dyletswydd ar y Cyngor i asesu ac ystyried effaith penderfyniadau ar y Gymraeg. Darparwyr swm sylweddol o dystiolaeth gan y Cyngor oedd yn cynnwys cofnodion cyfarfodydd ac adroddiadau yn sgil y cyfnod ymgynghori oedd yn dangos bod y Cyngor wedi ystyried yr effeithiau posib yn ofalus, ac mae'r adroddiad gan y Comisiynydd yn cydnabod bod y Cyngor wedi rhoi "ystyriaeth gydwybodol" i'r effeithiau.

Roedd y dyfarniad am fethu a chydymffurfio gyda Safonau 91, 92 a 93 yn seiliedig ar y ffaith na ofynnwyd y cwestiynau cywir wrth ymgynghori. Roedd yr adran addysg wedi dilyn y cyfarwyddiadau a roddwyd yn y Cod Trefniadaeth Ysgolion ar gyfer y broses ymgynghori, ac nid oedd y canllawiau hynny wedi rhoi arweiniad ar sut i ddilyn gofynion y Cod a'r Safonau ar yr un pryd.
Nid oedd y Cyngor o'r farn bod peidio â gofyn y cwestiynau penodol am effaith ieithyddol wedi amharu ar allu unigolion i fynegi barn am effaith y penderfyniad ar y Gymraeg, ac roedd nifer fawr o sylwadau wedi cael eu cyflwyno gan drigolion lleol fel rhan o'r broses ymgynghori ac wedi eu hystyried wrth asesu effaith y penderfyniad, ond rydym yn derbyn bod methiant wedi bod o ran cydymffurfio gydag union ofyn y Safonau hyn.

Mae'r camau gweithredu sydd yn cael eu cynnig i gryfhau ein trefniadau wrth ymgynghori yn rai sydd eisoes ar y gweill neu eisoes wedi eu cyflawni gan y Cyngor.

CWYNION ac YMHOLIADAU AM WASANAETH NEU YN YMWNEUD Â PHOLISI IAITH Y CYNGOR

Adran	Nifer y Cwynion	Mater yr oedd y gwyn yn ymwneud ag o	Esboniad a chamau a gymerwyd
Cefnogaeth Gorfforaethol (Ionawr 2023)	**1**	Cwyn nad oedd modd nodi eu bod yn ddysgwr Cymraeg ar yr holiadur cydraddoldeb sydd yn cael ei ddefnyddio efo ymgynghoriadau cyhoeddus.	Mae'r cwestiwn safonol sydd yn cael ei ddefnyddio yn cyd-fynd gyda'r cwestiwn am allu ieithyddol sydd yn ymddangos yn y cyfrifiad. Mae hyn yn galluogi'r Cyngor i gymharu data sydd yn dangos a yw ymatebwyr i ymgynghoriadau yn gynrychioladol o boblogaeth Gwynedd. Wedi trafod y cwestiwn gyda swyddogion perthnasol o'r tîm ymchwil, cyfathrebu a chydraddoldeb, penderfynwyd treialu cwestiwn newydd, sydd yn gofyn am lefel gallu a sgiliau mewn ffordd wahanol, ac yn cynnwys opsiwn i nodi os yw rhywun yn ddysgwr. Byddwn yn edrych ar ganlyniadau'r ddau ymgynghoriad sydd yn treialu'r cwestiwn i weld a yw'r ffurf yma yn rhoi gwybodaeth fwy defnyddiol i ni. Anfonwyd ymateb i'r achwynydd yn diolch iddynt am ddod a'r mater i'n sylw ac yn esbonio'r newid rydym yn ei dreialu.
Cefnogaeth Gorfforaethol / Priffyrdd a Bwrdeistrefol	**1**	Cwyn bod polisi recriwtio'r Cyngor yn annheg wrth fynnu bod angen bod yn rhugl yn y Gymraeg ar gyfer pob swydd. Roedd gan yr unigolyn nam clyw oedd yn golygu na allai ddeall na dysgu Cymraeg yn dda. Gan ei fod dan yr argraff bod y gofynion ieithyddol ar swyddi yn golygu bod angen bod yn rhugl, teimlai na allai ymgeisio am swydd efo'r Cyngor. Roedd wedi ei droi i ffwrdd o ganolfan ailgylchu'r Cyngor wrth geisio cyflwyno CV am nad oedd yn gallu siarad Cymraeg. Teimlai felly bod y polisi yn gwahaniaethu yn ei erbyn.	Anfonwyd ymddiheuriad i'r achwynydd am yr ymateb a gafodd yn y ganolfan ailgylchu, ac esboniwyd y polisi o ran gosod gofynion iaith ar swyddi. Edrychwyd ar un o'r swyddi oedd dan sylw gan yr achwynydd (swydd gyrru LGV) a chadarnhau mai lefel Sylfaen/Mynediad oedd y gofynion iaith ar gyfer y swydd honno. Roedd yr Ymgynghorydd Cydraddoldeb yn rhan o ymateb i'r gwyn hon hefyd gan fod yr achwynydd yn honni gwahaniaethu ar sail anabledd. Mae cam gweithredu posib i'r gwyn yma i edrych ar y geiriad sydd yn cael ei ddangos mewn swydd ddisgrifiadau er mwyn sicrhau bod y gofynion yn glir ac yn ddealladwy i'r trigolion sydd yn ymgeisio am swyddi.
Byw'n Iach	**1**	Derbyniwyd cwyn am ddefnydd o'r Saesneg mewn gwersi nofio.	Trafodaethau wedi eu cynnal rhwng y tîm rheoli a'r swyddog datblygu nofio a chynllun gwaith wedi ei lunio ganddynt

			i fynd i'r afael a'r mater. Y sefyllfa wedi codi yn ddiweddar yn sgil problemau staffio arweiniodd at yr angen i benodi swyddogion nofio gyda'r cymwysterau cywir, ond nad oedd yn cyrraedd dynodiad iaith y swydd. Esboniad wedi ei anfon at yr achwynydd.
Cyllid	**1**	Cwyn am ddiffyg gwasanaeth Cymraeg gan gwmni Excel, sydd yn darparu gwasanaeth casglu dyledion ar ran y Cyngor	Amgylchiadau gan y cwmni (salwch staff a phroblemau recriwtio) wedi golygu nad oedd siaradwr Cymraeg rhugl ar gael ar y diwrnod y ffoniodd yr achwynydd oedd yn gallu delio efo'r alwad ac ateb ei ymholiad yn llawn yn Gymraeg. Mae'n rhan o'r cytundeb gyda'r cwmni bod y gwasanaeth yn cael ei gynnig yn Gymraeg ac maent wedi gweithio yn galed i sicrhau'r gwasanaeth drwy recriwtio a hyfforddi gweithwyr lleol yn hytrach na recriwtio o dros y ffin. Er bod y gwasanaeth a ddarperir fel arfer yn ateb gofynion y cytundeb, mae'r gwasanaeth Cyllid yn ystyried a ellir dod a'r gwaith dan sylw yn fewnol i'r Cyngor yn y dyfodol.